



Safonau'r DU

ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd

Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd mewn Ymchwil

# Safonau i helpu'r cyhoedd i fod yn rhan o ymchwil



# Am y llyfryn yma



Mae'r llyfryn yma ar gyfer pobl a sefydliadau sydd yn gwneud ymchwil.



Ymchwil ydy pan mae pobl eisiau cael gwybod mwy am rywbeth neu eisiau gweld os ydy syniad newydd yn gweithio.

Er enghraifft, efallai fod pobl eisiau gweld pa mor dda mae ffisig newydd yn gweithio.

Mae'r llyfryn yma'n edrych ar sut i helpu'r **cyhoedd** i fod yn rhan o ymchwil.

Mae'r cyhoedd yn gallu bod yn unrhyw un, fel:

- pobl sydd yn defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal
- teuluoedd a gofalwyr
- sefydliadau sydd yn siarad o blaid pobl, teuluoedd a gofalwyr





Mae'r cyhoedd yn gallu gwneud i ymchwil fod yn well o lawer.



Mae'r cyhoedd yn gallu bod yn rhan o ymchwil mewn llawer o ffyrdd.

Er enghraifft, efallai eu bod nhw eisiau:

- gwneud yr ymchwil
- helpu i gynllunio'r ymchwil neu i ysgrifennu gwybodaeth am yr ymchwil



Mae gan y llyfryn yma rai **safonau** i helpu'r cyhoedd i fod yn rhan o ymchwil.

Rhestr o bethau i'w gwneud neu feddwl amdany'n nhw ydy safonau.

Maen nhw'n helpu pobl i wybod sut i wneud rhywbeth yn iawn.



Fe fydd y safonau'n helpu pobl i wybod y ffordd orau i'r cyhoedd fod yn rhan o ymchwil.



Mae pobl yn gallu defnyddio'r safonau i feddwl am:

- sut mae'r safonau'n gallu gweithio ar gyfer eu hymchwil nhw
- sut mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn ymchwil
- beth sydd angen newid



Mae llawer o bobl yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr wedi helpu i wneud y safonau.



Mae yna **6** safon yn y llyfryn yma.

Maen nhw'n dechrau ar y dudalen nesaf.



# Y safonau



## Gwneud yn siŵr bod llawer o bobl yn gallu helpu i wneud ymchwil

Mae'r safon yma'n edrych ar sut i wneud yn siŵr bod llawer o wahanol bobl yn gallu bod yn rhan o ymchwil.

### Sut i wneud i'r safon yma weithio

I wneud i'r safon yma weithio, dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil:



- Wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn gallu cymryd rhan mewn ymchwil o'r cychwyn, fel eu bod nhw'n gallu helpu i gynllunio'r ymchwil.
- Cael gwared o unrhyw broblemau sydd yn ei gwneud hi'n anodd i'r cyhoedd gymryd rhan.



Er enghraifft, gallai hyn olygu:

- gofyn i bobl pryd maen nhw eisiau cael cyfarfodydd
- talu costau teithio yn ôl i bobl yn syth

Dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil hefyd:



- Ddweud wrth bobl am ymchwil, a dweud eu bod nhw'n gallu cymryd rhan.

Dweud wrth bobl mewn gwahanol ffyrdd, fel bod y bobl iawn yn cael gwybod am yr ymchwil.

Er enghraifft, dweud wrth bobl trwy Facebook, neu roi gwybodaeth sydd yn defnyddio geiriau hawdd.



- Dweud wrth bobl sut maen nhw'n gallu cymryd rhan mewn ymchwil.

Defnyddio ffyrdd gwahanol i wneud hyn, fel y rhyngrwyd, papurau lleol a gwasanaethau ieched lleol.

Gwneud hyn yn deg i bawb.



- Gwneud yn siŵr bod yna wahanol ffyrdd i bobl gymryd rhan mewn ymchwil.

A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu cymryd rhan mewn ffordd sydd yn iawn iddyn nhw.



## Gwneud yn siŵr bod pawb sydd yn gwneud ymchwil yn gweithio'n dda gyda'i gilydd

Mae'r safon yma yn edrych ar sut i weithio gyda'ch gilydd yn dda, rhannu syniadau a gwybod beth y mae'n rhaid i bawb ei wneud.

### Sut i wneud i'r safon yma weithio



I wneud i'r safon yma weithio, dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil:

- Ysgrifennu pam eu bod nhw eisiau i'r cyhoedd fod yn rhan o'r ymchwil, a dweud sut fydd hyn yn helpu.



Cynllunio

- Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd yn gallu helpu i gynllunio sut y byddan nhw'n cymryd rhan mewn ymchwil.

Dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil hefyd:

- Wneud yn siŵr bod y cyhoedd sydd yn gwneud yr ymchwil yn deall beth fydd yn digwydd, a beth y mae'n rhaid i bawb ei wneud.

Mae'n bosib y bydd hyn yn newid dros amser.

Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd sydd yn gwneud yr ymchwil yn hapus â'r pethau y maen nhw'n eu gwneud a sut mae pethau'n mynd.

Mae angen cadw llygad ar hyn bob amser.

- Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd yn gallu rhannu syniadau a helpu i wneud penderfyniadau am yr ymchwil.







**Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd yn cael y cymorth iawn a'r wybodaeth iawn, a bod y sgiliau iawn ganddyn nhw i fod yn rhan o'r ymchwil**

## **Sut i wneud i'r safon yma weithio**



I wneud i'r safon yma weithio, dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil:

- Wneud yn siŵr bod yna ddigon o arian i gefnogi'r cyhoedd i gymryd rhan.
- Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod pa gymorth mae'r cyhoedd ei angen i gymryd rhan, a rhoi'r cymorth hwnnw iddyn nhw.



Er enghraifft, efallai fod rhywun angen cymorth i ddeall gwybodaeth, i deimlo'n saff neu i siarad mewn cyfarfodydd.



- Gwneud yn siŵr bod rhywun sydd yn rhan o'r ymchwil ar gael i'r cyhoedd siarad â nhw pan maen nhw eisiau gwybodaeth neu gymorth.

Dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil hefyd:



- Wneud yn siŵr bod y cyhoedd sydd yn gwneud yr ymchwil yn gallu dysgu beth bynnag sydd angen iddyn nhw ei ddysgu ar gyfer yr ymchwil.

Dylai pawb weithio gyda'i gilydd i:

- benderfynu beth sydd angen i bobl ei ddysgu i allu gwneud yr ymchwil
- cadw llygad ar ba mor dda mae hyn yn gweithio



- Gwneud yn siŵr bod y sefydliad neu'r prosiect ymchwil yn dal i ddysgu am sut i weithio gyda'r cyhoedd wrth wneud ymchwil.

Dylai pawb weithio gyda'i gilydd i:

- edrych ar sut mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn ymchwil
- newid pethau os oes angen
- rhannu beth bynnag maen nhw wedi ei ddysgu





## Rhoi gwybodaeth glir a hawdd i bobl am yr ymchwil

### Sut i wneud i'r safon yma weithio



I wneud i'r safon yma weithio, dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil:

- Wneud cynllun sydd yn dangos sut i roi gwybodaeth glir i bobl am yr ymchwil ac am sut i gymryd rhan.
- Gwneud yn siŵr bod y sefydliad neu'r prosiect ymchwil yn rhoi gwybodaeth i bobl mewn ffyrdd gwahanol os oes angen.



Er enghraifft, defnyddio lluniau a geiriau hawdd, defnyddio e-bost neu ddefnyddio ieithoedd gwahanol.

Dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil hefyd:



- Ofyn i'r cyhoedd sut maen nhw'n teimlo am fod yn rhan o'r ymchwil.

Gwneud yn siŵr bod y sefydliad neu'r prosiect ymchwil yn cael gwared o unrhyw broblemau sydd yn codi yn hyn o beth.



- Gwneud yn siŵr bod y sefydliad neu'r prosiect ymchwil:
  - yn rhannu beth y mae wedi ei ddysgu a beth y mae wedi ei wneud i wella pethau
  - yn rhoi gwybod i bobl trwy'r amser sut mae'r ymchwil yn mynd





**Edrych ar sut mae bod yn rhan o ymchwil wedi gweithio i'r cyhoedd.**

**Rhannu beth mae'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil yn ei ganfod. Fe fydd hyn yn helpu i wella ymchwil.**

### **Sut i wneud i'r safon yma weithio**

I wneud i'r safon yma weithio, dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil:

- Wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn cael dweud eu dweud am ba mor dda oedd bod yn rhan o'r ymchwil wedi gweithio iddyn nhw.

**A dweud wrthyn nhw sut i gael gwybod pa mor dda y mae pethau wedi gweithio.**

- Dweud ar y dechrau sut maen nhw eisiau i'r cyhoedd fod yn rhan o'r ymchwil a beth maen nhw eisiau gweld yn digwydd.



Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd sydd yn gwneud yr ymchwil yn cael dweud eu dweud am hyn.

Dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil hefyd:

- Gadw'r wybodaeth iawn i ddangos sut mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn ymchwil.

Defnyddio'r wybodaeth yma i weld:

- sut mae cymryd rhan mewn ymchwil wedi gweithio i'r cyhoedd
- beth sydd angen newid



- Ysgrifennu adroddiadau am y cyhoedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil ac am sut mae hyn wedi gweithio.

Mae angen gwneud yn siŵr bod y sefydliad neu'r prosiect ymchwil yn dysgu o beth bynnag y mae'n ei ganfod, ac yn defnyddio hyn ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.



**Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd sydd yn gwneud ymchwil yn gallu helpu i wneud penderfyniadau am yr ymchwil.**

### **Sut i wneud i'r safon yma weithio**

I wneud i'r safon yma weithio, dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil:

- Wneud yn siŵr bod y cyhoedd sydd yn gwneud ymchwil:
  - yn cael rhywun i wrando arnyn nhw
  - yn gallu dweud eu dweud o'r dechrau am benderfyniadau mawr am yr ymchwil

- Gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw gynlluniau da sydd yn dangos sut mae'r cyhoedd yn gallu bod yn rhan o ymchwil.

Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd sydd yn gwneud ymchwil yn gallu helpu i:

- wneud y cynlluniau
- cadw llygad ar sut mae'r cynlluniau'n gweithio, a'u newid nhw
- rhannu'r cynlluniau





Dylai'r sefydliad neu'r prosiect ymchwil hefyd:

- Wneud yn siŵr bod pawb sydd yn gwneud yr ymchwil yn gwybod pwy sydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn gallu cymryd rhan.



- Gwneud yn siŵr bod yna ddigon o arian, pobl a phethau eraill sydd eu hangen i'r cyhoedd allu cymryd rhan.

Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd sydd yn gwneud yr ymchwil yn cael dweud eu dweud am sut mae arian a phethau eraill yn cael eu defnyddio.



- Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth bersonol pobl yn cael ei chadw'n breifat ac yn ddiogel

## Dyma ddiwedd y safonau.

I gael gwybod mwy am y safonau, ewch i'r wefan yma:

<https://sites.google.com/nih.ac.uk/pi-standards/home>



Dyma'r sefydliadau sydd yn gweithio gyda'i gilydd ar y safonau:

**NIHR** | National Institute  
for Health Research



**HSC** Public Health  
Agency